

## Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol Negeseuon Allweddol a Gweithredoedd

<b>Teitl y Cyfarfod</b>	Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)			<b>Dyddiad</b>	07.06.2018
<b>Rhif y cyfarfod</b>	9	<b>Amser dechrau</b>	10:00	<b>Amser gorffen</b>	16:15
<b>Presennol</b>	Peter Davies (Cadeirydd) (Partneriaeth PD), Nick Barcock (Dŵr Cymru Welsh Water), Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Rachel Sharp (Ymddiriedolaeth Natur Cymru), Lesley Jones (Cadwch Gymru'n Daclus), Mike Parry (Cadeirydd Partneriaeth Pwllheli), Emily Williams (RSPB), Deanna Groom (RCAHMW), Becky Phillips (JNCC), Gill Bell (Cymdeithas Cadwraeth Forol a chyswllt Amgylchedd Cymru), David Jones (Ynni Môr Sir Benfro a Fforwm Arfordir Sir Benfro), Phil Hollington (Cragen Llyn a Mon), Jonathan Monk (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), Lucy Taylor (Partneriaeth Aber Afon Hafren), Rhoda Ballinger (Prifysgol Caerdydd), Jetske Germing (Fforwm Arfordir Sir Benfro a Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Kathryn Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Dan Crook (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro), Graham Rees (Llywodraeth Cymru), James Watkins (Llywodraeth Cymru), Gary Douch (Llywodraeth Cymru), Louise George (Llywodraeth Cymru), Pat Cowdy (Llywodraeth Cymru), Michelle Billing (Llywodraeth Cymru), Sharon Davies (Llywodraeth Cymru), Owain Edwards (Llywodraeth Cymru), Rebecca Gorman (Llywodraeth Cymru), Hilary Evans (Llywodraeth Cymru)				
<b>Gwesteion</b>	Gareth Hall (Llywodraeth Cymru), Gemma Christian (Llywodraeth Cymru), Cath Osborne (Llywodraeth Cymru) Dom Ferris a Jack Middleton (Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth)				
<b>Ymddiheuriadau</b>	Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Nick O'Sullivan (Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru), Trevor Jones (Dyframaeth Cymru), Alan Morgan (Cadeirydd British Marine Cymru), Emma Barton (Cymdeithas Hwyllo Frenhinol Cymru), Eve Read (Dŵr Cymru), David McDermott (Cymdeithas Harbwr Saundersfoot), Mark Russell (Cymdeithas Agregau Morol Prydain), David Tudor (Ystâd y Goron),				

#	Eitem Agenda
1.	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau
2.	Pontio'r Undeb Ewropeaidd ac adborth ar yr is-grŵp Moroedd ac Arfordiroedd
3.	Sesiwn ymglyfarwyddo â'r grŵp
4.	Gweithdy Partneriaeth Moroedd Glân
5.	Cyflwyniad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
6.	Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweithdy Sail Dystiolaeth
7.	Cynllun Gofynion Tystiolaeth Forol
8.	Gweithdy Brexit: Ystyried Cynhyrchion Moroedd a'r Arfordiroedd
9.	Crynodeb a myfyrdodau ar y diwrnod
10.	Gorffen

## Rhagarweiniad

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (*WMAAG*) yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau, ac mae'n rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Hwn yw'r grŵp rhanddeiliaid trosfwaol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru gan eistedd wrth ochr Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (*WMFAG*), sef prif fforwm y diwydiant pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

Mae *WMAAG* yn cynnwys 32 o arweinwyr ymhlith rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau pob sector neu fuddiant neu fuddsoddiad ym maes Morol Cymru. Ceir manylion am sectorau a sefydliadau arweiniol yng [Nghylch Gorchwyl](#) y grŵp.

Cynhaliodd *WMAAG* ei 9<sup>fed</sup> cyfarfod yn yr Hyb Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd ar 7fed Mehefin 2018. Mae'r negeseuon allweddol a'r gweithredoedd a ddaeth o'r cyfarfod wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae aelodau *WMAAG* yn gyfrifol am ddsbarthu negeseuon cyson ymhlith eu rhwydweithiau gan dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n codi. Pe baech chi'n dymuno trafod unrhyw un o'r eitemau agenda yn fanylach yna cysylltwch ag arweinydd y sector. Pe bai angen manylion cyswllt cynrychiolydd eich sector arnoch chi, cysylltwch â chyfeiriad e-bost y Gweinidog dros y Môr a Physgodfeydd:  
([MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales](mailto:MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales))

## Negeseuon Allweddol ac Allbynnau

### Eitem 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Negeseuon allweddol	Gweithredoedd
<p>Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am fod gan rai aelodau gyfarfodydd eraill i'w mynychu megis cyfarfod bwrdd crwn Brexit yr UE a bod yn rhan o Ras Cefnfor Volvo.</p> <p>Nodwyd gweithredoedd y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd fel naill ai wedi'u cwblhau neu eir i'r afael â hwy yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Rhoddodd aelodau WMAAG gyfraniadau defnyddiol i'r cadeirydd o ran sut mae'r grŵp yn gweithredu.</p>	<p><b>1.1</b> Aelodau i nodi dyddiadau'r gweithdai Cynllunio Morol a nodwyd yn Niweddariad Defnyddwyr Morol a fe'u gwahoddwyd i roi mewnbwn i rai o'r themâu gweithredu allweddol.</p> <p><b>1.2</b> Yn y dyfodol dylai aelodau gyflwyno unrhyw gyfraniadau ar gyfer ffurfio'r ffordd o feddwl ar gyfer y grŵp ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth symud ymlaen i <a href="mailto:Peter@pdpartnership.com.uk">Peter@pdpartnership.com.uk</a></p>

### Eitem 2: Sesiwn Ymgysylltu â'r Grŵp

Negeseuon Allweddol	Gweithredoedd
<p>Yn ystod y sesiwn ymgysylltu trafododd aelodau brif gyflawniadau sefydliadau a sectorau unigol. Myfyriodd y grŵp ar sut mae natur gydweithrediadol WMAAG wedi cyfrannu at gyflenwi mewn nifer o feysydd allweddol.</p> <p>Ymhlith y cyflawniadau nodedig mae:</p> <p>Mae <b>Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol</b> a <b>Gweithgor Agregau</b> wedi darparu ymgysylltu adeiladol a gwybodus sydd wedi helpu i gyd-ddatblygu fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Cyflawnwyd llawer o waith cadarnhaol yn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA). Mae Grŵp</p>	<p><b>2.1</b> Cynllun Gweithredu Grŵp Llywio MPA – Louise George i wneud cais am gynnal ymgynghoriad ar gyfer unrhyw Gynllun Gweithredu cyn iddo gael ei gyhoeddi.</p>

<p>Llywio <i>MPA</i> yn datblygu Cynllun Gweithredu, y mae aelodau'n awyddus i gynnal ymgynghoriad arno cyn iddo gael ei gyhoeddi.</p> <p>Mae aelodau wedi cyfrannu at baratoadau Brexit trwy is-grwpiau megis y grŵp Moroedd ac Arfordiroedd. Mae technolegau newydd ar gyfer monitro ac adrodd ar ddaliadau yn cael eu datblygu i wella ein gwybodaeth trwy gasglu data.</p> <p>Mae'r <a href="#">Bartneriaeth Moroedd Glân</a> yn darparu grŵp gorchwyl a gorffen unigryw lle y mae rhanddeiliaid wedi datblygu ac yn gweithredu cynllun gweithredu ar gyfer sbwriel môr i Gymru. Mae partneriaid yn symud gweithredoedd yn eu blaen yn unigol ac ar y cyd i fynd i'r afael â sbwriel môr.</p> <p>Mae <b>Ras Cefnfor Volvo</b> wedi helpu i osod Cymru ar lwyfan y byd. Ymrwymodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd i'r agenda Moroedd Glân a chyhoeddodd mai Cymru fyddai'r genedl <b>Ail-lenwi</b> gyntaf gan roi mynediad i ddŵr yfed am ddim ar hyd llwybr cyfan yr arfordir.</p> <p>Mae datblygu gwefan <a href="#">Morol Cymru</a> yn darparu ffenest siop i'r holl weithredoedd morol ac mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo buddsoddi yn ardal forol Cymru. Daeth y weledigaeth am hyn gan adborth ac ymgysylltu â <i>WMAAG</i>.</p> <p>Ceir manylion pellach yn <b>Atodiad 1</b>.</p>	<p><b>2.2 Ail-lenwi</b> – Gofynnwyd i aelodau roi gwybodaeth a syniadau defnyddiol i gynorthwyo cydlynnydd Cymru o ran rhoi'r prosiect Ail-lenwi ar waith. Anfonwch e-bost at <a href="mailto:Catherine.Osborne@gov.wales">Catherine.Osborne@gov.wales</a></p> <p><b>2.3</b> Aelodau i edrych ar wefan Morol Cymru Busnes Cymru a rhoi adborth i Becky a Hilary.</p> <p><b>2.4</b> Aelodau i enwebu cynrychiolwyr cyfathrebu y bydd modd iddynt dderbyn hyfforddiant i ddarparu cynnwys ychwanegol ar gyfer y wefan.</p>
---	--

### Eitem 3: Gweithdy Partneriaeth Moroedd Glân

Pwyntiau Allweddol	Gweithredoedd
<p>Rhoddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd araith yn cymeradwyo'r grŵp Partneriaeth Moroedd Glân am eu gwaith a chan ailadrodd ei ymrwymiad i fynd i'r afael â sbwriel môr yng Nghymru. Ar ddiwedd yr araith cymeradwyodd a lansiodd y fideo <i>NARC</i>. Ar ôl yr araith ymunodd y Gweinidog â'r grwpiau yn eu gweithdy.</p>	

Cafwyd trafodaethau ar themâu'n cynnwys y prosiect Ail-lenwi, Troi'r Llanw ar Blastig trwy gefnogi busnesau i fod yn fusnesau di-blastig; Glanhau Traethau Cymru Gyfan a rhannu cynlluniau ar newid ymddygiad trwy'r cymunedau a'r ysgolion di-blastig.

Mae negeseuon allweddol y gweithdy wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol:

### **Cefnogaeth**

Mae angen ariannu ar gyfer ymchwil a datblygu ac i gefnogi cyfleoedd busnesau gan ganolbwyntio ar ostwng swm y gwastraff plastig. Dylai fod gan yr adran gaffael ofyniadau i sicrhau gostyngiad yn nefnydd plastig.

### **Ymwybyddiaeth**

Mae momentwm wedi tyfu'n gyflym a'r her yw harneisio a chynnal y momentwm hwnnw. Dylid targedu addysg ac ymwybyddiaeth ar roi arweiniad ar sut gall pobl a busnesau ddod yn ddi-blastig.

### **Cadwyni cyflenwi**

Mae angen cynnal gwaith i ddeall pan nad yw busnesau'n ddi-blastig untro (*SUP*) a symud busnesau oddi wrth y meddylfryd untro. Mae'r fenter Cymunedau Di-blastig yn gwneud cynnydd da.

### **Galluogi**

Caiff gweithgareddau megis Glanhau Traethau Cymru Gyfan eu hyrwyddo a'u cyhoeddi trwy'r Bartneriaeth Moroedd Glân ar draws sefydliadau cenedlaethol a mabwysiadir dull cydlynol hirdymor.

### **Ataliaeth**

Mae angen sicrhau ataliaeth trwy gymysgedd o fesurau gwirfoddol, cymhelliannol a deddfwriaethol. Mae gosod cyfrifoldeb helaethach ar gynhyrchwr, y prosiect Ail-lenwi a'r

**3.1** Sefydlu grŵp llywio ar gyfer Glanhau Traethau Cymru Gyfan.

**3.2** Glanhau Traethau Cymru Gyfan i'w hyrwyddo trwy dudalennau gwe y Bartneriaeth Moroedd Glân.

ymrwymiad i <i>DRS</i> oll yn gamau cadarnhaol at droi'r llanw ar blastig.	
Gweler <b>Atodiad 2</b> ar allbwn y gweithdy.	

#### Eitem 4: Cyflwyniad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

<b>Negeseuon Allweddol</b>	<b>Gweithredoedd</b>
Rhoddodd Gareth Hall gyflwyniad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cysylltu Deddf a Rhaglen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( <i>WBFG</i> ) i'r Llywodraeth. Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol strwythur a rennir gyda'r Polisi Cynllunio Cymru ( <i>PPW</i> ) newydd ac mae'n rhoi cyfeiriad newydd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.	<b>4.1</b> Aelodau i roi adborth ar yr ymgynghoriad ac i ledu'r neges ymhlith eu rhanddeiliaid.

#### Eitem 5: Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweithdy Sail Dystiolaeth

<b>Negeseuon Allweddol</b>	<b>Gweithredoedd</b>
Rhoddodd Kathryn Hughes (CNC) gyflwyniad ar Ddatganiadau Ardal y mae gofyniad ar Gyfoeth Naturiol Cymru i'w cwblhau i godi ymwybyddiaeth ac adrodd ar gynnydd hyd yma. Rhanddeiliaid fydd y prif yrwyr o ran yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y datganiadau ardal.  Canolbwyntiodd y gweithdy ar gasglu adborth ar y Proffil Ardal Forol a Themau i'w Hystyried, ac i drafod ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ledled Cymru, ar raddfa genedlaethol ac ar raddfa leol.  Gweler <b>Atodiad 3</b> ar allbwn y gweithdy.	<b>5.1</b> Aelodau i gwblhau arolwg o randdeiliaid ar Ddatganiadau Ardal: <a href="https://www.smartsurvey.co.uk/s/DatArdal/">https://www.smartsurvey.co.uk/s/DatArdal/</a>

Eitem 6: Cynllun Gofynion Tystiolaeth Forol

Negeseuon Allweddol	Gweithredoedd
<p>Cyflwynodd James Watkins ddrafft cychwynnol o Gynllun Gofynion Tystiolaeth Forol (<i>WMER</i>) i rannu'r cynllun ar ei gyfnod cynharaf ac i brofi a oedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen am y cynllun hwn.</p> <p>Diben y Cynllun <i>WMER</i> yw cynllun strategol i ddal y gofynion polisi, casglu tystiolaeth a dylanwadu ar y Llywodraeth i lywio blaenoriaethau allweddol wrth i ni gychwyn ar drafodaethau Brexit. Mae'r blaenoriaethau'n rhan o 3 maes allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymchwil strategol</li> <li>- Monitro</li> <li>- Dadansoddi</li> </ul> <p>Y weledigaeth yw creu gofod ar-lein lle y gall defnyddwyr chwilio am yr holl dystiolaeth ar gael mewn un lle.</p> <p>Er mwyn penderfynu ar ba ymchwil fydd yn cael ei chynnwys bydd angen panel o arbenigwyr i gyd-ddatblygu ac i adolygu'r cynllun.</p> <p>Croesawodd aelodau'r weledigaeth ar gyfer y cynllun <i>WMER</i>. Cafwyd ychydig o bryderon o ran sefydlu llinellau sylfaenol. Cytunodd aelodau y dylai ffocws y cynllun fod ar <u>anghenion</u> tystiolaeth nid bylchau tystiolaeth.</p>	<p><b>6.1</b> Aelodau i roi adborth ar fersiwn ddrafft y Cynllun Gofynion Tystiolaeth Forol i <a href="mailto:james.watkins@gov.wales">james.watkins@gov.wales</a></p>

Eitem 7: Gweithdy Brexit: Ystyried Cynhyrchion Moroedd a'r Arfordiroedd

Negeseuon Allweddol	Gweithredoedd
<p>Rhoddodd Owain Edwards ddiweddariad ar waith y grŵp Moroedd ac Arfordiroedd Brexit ac amlinellodd y blaenoriaethau strategol allweddol y cytunwyd arnynt.</p>	<p><b>7.1</b> Aelodau i gynnig eitemau agenda ac awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.</p>

Gwahoddwyd aelodau i roi awgrymiadau i helpu i ddylanwadu ar eitemau agenda'r dyfodol. Teimlodd aelodau fod awyrgylch o ansicrwydd o amgylch paroddrwydd ar gyfer diwrnod un. Cynhyrchir papur i osod ein safbwynt i sicrhau ein bod yn cadw ein safbwynt wrth fynd i mewn i Brexit.

### Eitem 8: Crynodeb a myfyrdodau ar y diwrnod

Negeseuon Allweddol	Gweithredoedd
<p>Rhoddodd Deanna Groom ddiweddariad ar y prosiect CHERISH.</p> <p>Diolchodd Graham Rees i'r grŵp am ei ymdrechion ymrwymedig i sicrhau llwyddiant WMAAG a phwysleisiodd y byddai'r grŵp yn gweithio os bydd pawb yn parhau i roi'r ymdrech hon ac yn cyfrannu at ein nodau cyffredin yn unig.</p> <p>Credodd y Cadeirydd fod y cydweithio a ddangoswyd yn ystod y sesiwn Moroedd Glân wedi'i groesawu gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a chytunodd i anfon nodyn o ddiolch ato ar ran aelodau am ei bresenoldeb ac am y gefnogaeth a roddwyd i'r grŵp.</p> <p>Anogwyd aelodau i anfon awgrymiadau am leoliadau ac eitemau agenda ar gyfer y cyfarfod WMAAG a gynhelir ar 21<sup>ain</sup> Tachwedd, lleoliad i'w gadarnhau.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i aelodau am gyfarfod cynhyrchiol a chymeradwyodd y grŵp ar gyflawniadau cadarnhaol y 12 mis diwethaf.</p>	<p><b>8.1</b> Nodyn o ddiolch i'w anfon at y Gweinidog dros yr Amgylchedd.</p>



## Atodiad 1 – Sesiwn Ymglyfarwyddo â'r Grŵp

### Cynllunio Morol a Datblygu Cynaliadwy

- Chwaraeodd y **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol** ran bwysig mewn darparu ymgysylltu adeiladol a gwybodus. Roedd hyn yn help mawr i gyd-ddatblygu fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Derbyniwyd ymatebion cadarnhaol yn gyffredinol i'r ymgynghoriadau.
- Mae'r **Gweithgor Agregau** wedi adolygu polisi carthu agregau morol a oedd yn destun ymgynghoriad fel rhan o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
- Llawer o waith cadarnhaol o ran Brexit a datblygu'r Cynllun Morol.
- Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi datblygu cynaliadwy yn yr amgylchedd morol ac yn rhoi mewnbwn i'r cynllun morol a'r asesiadau ar lefel gynlluniau.

### Amgylchedd Morol a Rheoli Adnoddau Cynaliadwy

- **CNC** yn gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd morol trwy bethau megis rhaglen datblygu a monitro, llunio Adroddiadau Asesiad Cyflwr Dangosol ar Nodweddion Safle a Phrosiect Gwella Cyflwr Rhwydwaith *MPA* a'r broses Datganiad Ardal.
- **CNC** wedi datblygu a chymhwysu cynllun ariannu ei bartneriaid i gyflenwi gwaith arloesol.
- **Fforwm Arfordir Sir Benfro** wedi symud tri *EOI* yn eu blaen a'u troi'n gynlluniau busnes gyda CNC.
- **Fforwm Arfordir Sir Benfro** wedi bod yn trosglwyddo negeseuon Rheoli Adnoddau Cynaliadwy i gynulleidfaoedd newydd i'w trosglwyddo i'w cwsmeriaid.
- Prosiect Cod Morol Sir Benfro yn cael ei roi ar waith yn ACA Pen Llyn a Sarnau. Llawer o wersi gwerthfawr i'w dysgu parthed dulliau gofodol o ran codau ymddygiad morol.
- Mae'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn flaenoriaeth fawr a chafwyd cynnydd cadarnhaol o ran gwaith ar y safleoedd hyn.
- **RSPB** – Mae Lefelau Byw yn bartneriaeth tirlun sy'n ailgysylltu pobl â natur yn Lefelau Gwent gan ddefnyddio ariannu Treftadaeth ac ariannu'r Loteri.
- **RSPB** wedi adrodd nifer gynyddol o gornicyllod ar yr arfordir.
- Ardaloedd Morol Gwarchoddedig - mae hwn yn faes o flaenoriaeth fawr a chafwyd llawer o waith cadarnhaol ar safleoedd gwarchoddedig. Mae Grŵp Llywio *MPA* yn y broses o ddatblygu Cynllun Gweithredu a mynegodd aelodau ddiddordeb mewn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Gweithredu cyn iddo gael ei gyhoeddi.

### Brexit

- Cyflawnir gwaith ym maes gwyddoniaeth a TGCh yn sgil Brexit.
- Monitro llongau ar longau <12metr lle yr oedd Brexit yn brif yrrwr fodd bynnag mae monitro ac adrodd ar ddaliadau yn cynyddu gwybodaeth trwy gasglu data.
- Bydd tystysgrifau daliadau i'w hallforio'n berthnasol ar ôl Brexit ar gyfer monitro a gwyddoniaeth.
- Porthladdoedd yn cynnal gwaith paratoi ar gyfer Brexit.

## Mynd i'r afael â sbwriel môr

- Mae'r [Bartneriaeth Moroedd Glân](#) yn darparu grŵp gorchwyl a gorffen unigryw lle mae rhanddeiliaid yn ymrwymedig i fynd i'r afael â sbwriel môr trwy ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu ar gyfer sbwriel môr i Gymru. Mae ei bartneriaid yn cyflenwi llawer o waith i fynd i'r afael â sbwriel môr.
  - **Fforwm Arfordir Sir Benfro** Fel partneriaeth arfordirol yn ei 18fed blwyddyn, dan amodau heriol mae Fforwm Arfordir Sir Benfro wedi tyfu ac erbyn hyn mae ganddo ddeg aelod staff gan ei wneud y bartneriaeth arfordir fwyaf yn y Deyrnas Unedig.
  - Adroddodd **Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth** ar lwyddiant prosiectau **Cymunedau ac Ysgolion Di-blastig** a lansiwyd ym mis Gorffennaf. Mae Aber-porth, Aberystwyth a Chei Newydd wedi ennill statws di-blastig ac erbyn hyn mae 17 o gymunedau yng Nghymru'n gweithio tuag ato. Maent yn cynnal 53 o ymgyrchoedd i lanhau traethau yng Nghymru.
  - **Y Gymdeithas Cadwraeth Forol** – Ymgyrch Her Ddi-blastig.
  - **Cadwch Gymru'n Daclus** – Presenoldeb ac ymgysylltu ag arhosiad Ras Cefnfor Volvo yng Nghaerdydd i godi proffil llygredd plastig a sbwriel môr.
  - Digwyddiadau mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth am y materion.
  - **Glanhau Traethau Cymru Gyfan** – anelu at lanhau pob traeth hygyrch dros gyfnod o ychydig ddyddiau am y tro cyntaf.
- 
- Mae **Ras Cefnfor Volvo** wedi helpu i osod Cymru ar y llwyfan byd-eang. Y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn ymrwymo i'r agenda Moroedd Glân. Cynhaliodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol sgysiau cadarnhaol a chefnogol ar sut mae diwydiant yn awyddus i gefnogi'r Llywodraeth o ran troi'r llanw ar blastig. Cymeradwywyd Cadwch Gymru'n Daclus trwy guro dwylo pan gyhoeddodd fod gan Gymru fwy o faneri glas na gweddill y Deyrnas Unedig.
  - **Ail-lenwi** – Yn ystod Ras Cefnfor Volvo cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd uchelgais Llywodraeth Cymru i ddod yn genedl ail-lenwi gyntaf y byd gan roi mynediad i ddŵr yfed am ddim ar hyd llwybr yr arfordir. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r prosiect City 2 Sea i benodi cydlynnydd ar gyfer Cymru.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Datblygu gwefan [Busnes Cymru: Morol Cymru](#). Ffurfiwyd y weledigaeth ar gyfer y wefan trwy adborth gan WMAAG a thrwy ymgysylltu ag ef. Erbyn hyn mae'r safle'n rhoi ffenestr siop ar gyfer yr holl weithredoedd morol ac mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo buddsoddi mewn ardaloedd morol Cymru.
- Mae **Fforwm Arfordir Cymru** yn mynd â rheoli arfordiroedd cynaliadwy a materion i mewn i ysgolion lleol a chânt eu cyflenwi fel rhan o'r cwricwlwm.

## Atodiad 2 – Allbynnau Gweithdy y Bartneriaeth Moroedd Glân

Cafwyd trafodaethau ar themau'n cynnwys y prosiect Ail-lenwi, Troi'r Llanw ar Blastig trwy gefnogi busnesau i fod yn fusnesau di-blastig; Glanhau Traethau Cymru Gyfan a rhannu cynlluniau ar newid ymddygiad trwy'r cymunedau a'r ysgolion di-blastig.

### Prosiect Ail-lenwi a mentrau eraill

Trafododd y grŵp roi'r prosiect Ail-lenwi ar waith gyda Cath Osborne. Bydd cydlynnydd yn cael ei benodi fodd bynnag bydd yn dibynnu ar dderbyn gwybodaeth a chymorth gan randdeiliaid. Gofynnwyd i aelodau roi gwybodaeth ddefnyddiol i gynorthwyo cydlynnydd Cymru i Cath – E-bost [Catherine.Osborne@gov.wales](mailto:Catherine.Osborne@gov.wales).

Trafodwyd mentrau presennol a mentrau posib:

- Cysylltu menter Ail-lenwi gyda City 2 Sea
- Her Blastig MCS
- Un diwrnod di-blastig a allai gyfrannu at fyd di-blastig
- Cymunedau di-blastig Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth
- Ardoll cwpanau coffi - llawer o gwmnïau eisoes wedi canolbwyntio ar y mater hwn
- Datganiad Ymrwymiad i Gymru DRS/Cyfrifoldeb y Cynhyrchwr gan y Gweinidog
- Labeli bwyd di-blastig Iceland
- Ni ddylid caniatáu labeli sy'n nodi "ni ellir ei ailgylchu ar hyn o bryd"
- Arweiniodd Cymru'r ffordd o ran codi tâl am fagiâu siopa - gadewch i Gymru arwain y ffordd eto
- Lleihau – Aildefnyddio – Ailgylchu: Angen i'r pwyslais fod ar Leihau
- Baner Las – cysylltu â RNLI, defnyddio fel cerbyd i hyrwyddo
- Croeso Cymru – Blwyddyn y Môr
- Neges – pam ac o ble i i ble ar ôl ei ailgylchu
- Ysgubo Morfeydd Heli – Partneriaeth Aber Afon Hafren

### Rhoi cefnogaeth i fusnesau fynd yn ddi-blastig

Mae angen ariannu ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu ac i gefnogi cyfleoedd busnes lle y rhoddir ffocws ar leihau swm y gwastraff plastig.

#### Cyfleodd ymchwil

- Adroddiad Cyfrifoldeb ar Gynhyrchwyr helaethach
- Mae gan genhedloedd eraill Ewrop gynlluniau mewn lle, gan ymestyn cyfrifoldeb ar y defnyddiwr h.y. cynllun ailgylchu blaendal ar boteli a chaniau
- Modelu o le mae sbwriel yn dod – sbwriel y cyhoedd, sbwriel pysgota, canfyddiad y cyhoedd parthed sbwriel
- Angen cynnal ymchwil bellach i bethau y gellir eu compostio
- Beth sydd ar ôl?
- Ble mae modd ei gompostio?
- Pecynnu cardfwrdd – effaith ar goedwigaeth (yma/rhywle arall)
- Biogyfansoddion – defnyddio deunyddiau bio yn lle plastig h.y. bagiau/cwpanau
- Angen bod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol e.e. defnyddio rhywbeth yn lle plastig – a yw'n symud y broblem i rywle arall?
- Angen i rai deunyddiau gael eu llosgi o hyd – fyddai'r deunyddiau newydd yn cynyddu hyn?
- Ble mae'r gwastraff bioddiraddadwy yn cael eu hanfon i fioddiraddio - beth yw'r prosesau a'r problemau posib?

- Defnydd ehangach o asesiadau effeithiau amgylcheddol – ar fentrau ar wahân i ddeddfwriaeth.

### Cyfleoedd datblygu

Annog busnesau i archwilio cyfleoedd i leihau defnydd o blastig:

- Cyfleoedd i ailgynhyrchu eitemau y gellir eu hailddefnyddio h.y. bagiau/cwpanau
- Eiliau di-blastig
- Angen i'r cymorth, y gefnogaeth a'r rhwydweithiau cadwyni cyflenwi fod mewn lle ar gyfer busnesau
- Gweithio gyda manwerthwyr/cwmnïau i edrych ar sut maent yn defnyddio plastig mewn pecynnu - bydd defnyddio rhai mathau o blastig yn parhau, ond lle gellir defnyddio'r plastig hwnnw eto - ategu gwerth ar gyfer ailddefnyddio
- Treulwyr anaerobig
- Deunyddiau amgen - angen i gynhyrchu deunyddiau bioddiraddadwy fod yn gynaliadwy
- Sut i fynd i'r lefel nesaf – plastig yw'r gyrrwr ar gyfer mentrau i ailddefnyddio gwastraff arall.

Ariannu enghreifftiau y gellid eu defnyddio:

- Ariannu Croeso Cymru
- Ariannu Awdurdodau Lleol? - annhebygol
- Ynni o wastraff = ffrwd incwm fawr ar gyfer Awdurdodau Lleol
- Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol – 2019 - £6.5m i gefnogi BBaCh yng Nghymru i symud tuag at ddull 'economi gylchol'.

### Caffael Cyhoeddus

- Rhoi pwysau fel bod angen i gcontractau nodi i leihau defnydd o blastig e.e. sector iechyd - 50% o'r gyllideb ddatganoledig yn mynd i'r sector iechyd - pa bwysau y gellid eu rhoi ar y sector? Lefel uchel o blastig untro, rhai'n angenrheidiol am resymau glendid - beth am rai eraill?
- Defnyddio cyllyll a ffyrcc plastig mewn ysgolion uwchradd yn Sir Benfro – 8 ysgol uwchradd, un yn unig yn defnyddio cyllyll a ffyrcc dur
- Gwyliau/cyhoeddiadau – gosod cyfyngiadau ar blastig untro fel amod o gefnogaeth/cymeradwyaeth gan sefydliadau megis Croeso Cymru
- Yr un peth ar gyfer grantiau/ariannu – amodau ynghlwm â chymeradwyaeth
- Gweler yr erthygl ynghlwm ar y gwasanaeth iechyd yn defnyddio cwpanau untro - <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44362392>

### Y Gadwyn Gyflenwi

- Deall y rhesymau pam nad yw cwmnïau wedi troi eu cefnau ar blastig untro (*SUP*)
- Angen mapio'r gadwyn gyflenwi
- Sut i symud oddi wrth feddylfryd untro?
- Pa mor brif ffrwd yw di-blastig?
- Mesurau gwirfoddol yn gyfyngedig – angen mesurau deddfwriaethol yn ogystal
- Cymhelliad arall – nid ariannol yn unig
- Sector bwyd pryd ar glyd – gwirfoddol ar hyn o bryd

### **Glanhau Traethau Cymru Gyfan**

Trafododd y grŵp gydlynw a chyfleoedd posib ar gyfer y digwyddiad Glanhau Traethau Cymru Gyfan ym mis Medi.

- Y tro cyntaf i'w gynnal – angen ei hyrwyddo trwy'r Bartneriaeth Moroedd Glân
- Codi ymwybyddiaeth a phlannu dialog ymhlith y cyhoedd
- Rheolwr Rhanbarthol Cadwch Gymru'n Daclus yn arwain a chanddo'r adnoddau i'w ymestyn
- Sefydlu grŵp llywio – gallwch gofrestru ar-lein
- Glanhau'r traethau'n cysylltu eu ffordd o fyw â'r effaith
- Pwysigrwydd llesiant trwy fod yn yr awyr agored – cysylltu â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cysylltu â'r iaith Gymraeg – glanhau traethau cyfrwng Cymraeg
- Hidlo'r traeth – gwnewch bethau o'r plastig sy'n cael ei ddarganfod.

Pwy arall y dylem feddwl amdanynt a denu cyhoeddusrwydd?

- Estyn allan i sefydliadau cenedlaethol – y Sgowtiaid / Merched y Wawr / Ffermwyr Ifainc / Gwobr Dug Caeredin / Bagloriaeth Cymru / Prifysgolion (Undeb y Myfyrwyr)
- 15/16 Medi – Glanhau Traethau'r Deyrnas Unedig MCS
- Diwrnodau gwirfoddoli Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau busnes megis FSB
- Aber Afon Hafren (trawsffiniol) = set data cyson
- Hyrwyddo gwasanaeth MCS
- Llundain cyn ac ar ôl
- Diwrnod Cefnforoedd y Byd 2019 – rhowch ddiweddariad ac adrodd y stori 12 mis o heddiw.

Beth yw ein negeseuon allweddol?

- Meddylwch am y ffynhonnell
- Meddylwch am sut i ysgogi newid

#### **Gweithredoedd:**

- Sefydlu grŵp llywio (Cysylltwch â Lesley/Peter am fanylion)
- Hyrwyddo'r digwyddiad trwy dudalennau gwe'r Bartneriaeth Moroedd Glân

#### **Galluogi newid ymddygiad**

Trafododd pob grŵp ffyrdd o newid ymddygiad trwy gynnwys cymunedau ac addysgu cymunedau.

#### Pysgota am Sbwriel

Pysgota am sbwriel – angen mewn rhai ardaloedd h.y. Hobbs Point a Doc Penfro

Dianc rhag y swigen o'r un meddylfryd – trwy ddeddfwriaeth, trwy gymhelliant

- Porthladd Aberdaugleddau – Sgip pysgota am sbwriel
- Angen ar gyfer pysgodfeydd. Gallu deddfu – parthed: potiau, drysau dianc. Rhai pysgotwyr yn gofyn am ddrysau dianc erbyn hyn e.e. Canada – angen i bob pot gael ei labeli, caiff llinell o botiau ei labeli yma
- ACA / Sue Burton – gweithiodd y fenter yn Sir Benfro'n dda fodd bynnag mae angen talu am fenter o'r fath
- Rhith-bysgota – hyd yn oed os ydym yn gweithio'n dda yng Nghymru mae gwastraff byd-eang yn broblem o hyd
- Ynys Gwales – rhyddhau adar (gwylanwyddau) rhag llinellau pysgota yn flynyddol – ond nid ydym yn gwybod o le mae'n dod
- Pysgota – un o'r campau mwyaf yn y Deyrnas Unedig – oes dulliau amgen i linellau pysgota neilon?

#### Ar Lefel Gymunedol

- Momentwm ymhlith y cyhoedd yn uchel iawn ar hyn o bryd ac mae lefel y diddordeb wedi cynyddu'n sydyn, sut ydym yn cadw'r momentwm hwnnw?
- Effaith *Blue Planet* wedi codi ymwybyddiaeth mewn ffordd ni all y Llywodraeth ei gwneud a allai helpu i newid ymddygiad

- Canllawiau i gymunedau – cefnogaeth i gymunedau godi ymwybyddiaeth o'r broblem a hysbysu pobl o'r hyn y gellir ei wneud i leihau gwastraff
- Canolbwyntio ar enillion bach i'r cyfeiriad cywir
- Codi ymwybyddiaeth; cyfeirio; harneisio momentwm ymhlith y cyhoedd
- Targedau realistig ar gyfer lleihau gwastraff – beth sy'n gyflawnadwy – nid yw 'di-blastig' yn swnio'n gyraeddadwy
- Gwnewch fod yn ddi-blastig yn gyflawnadwy ac yn hawdd
- Cymunedau di-blastig
- Cysylltu fideos â'r wefan
- Gwneud gollwng sbwriel yn gymdeithasol annerbyniol a gellir derbyn dirwy am ei wneud.

I annog newid mewn ymddygiad mae angen i ni fod yn gofyn y cwestiynau:

- Oes angen i ni ei ddefnyddio?
- Sut ydyn ni'n ei ddefnyddio?
- Sut ydyn ni'n cael gwared ohono?
- Gosod gwerth ar wastraff – poteli yr ad-delir y blaendal ayyb – “mae 5c o bwys os gallwch ei hawlio yn ôl”.

### Addysg

Angen cymysgu addysg, deddfwriaeth, dirwyon a mentrau eraill  
Cysylltiadau ieithyddol – clymu â'r dyhead iaith Gymraeg

- Urdd
- Plannu yng nghwricwlwm addysg Cymru
- Bagloriaeth Cymru
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymhlith pobl ifainc.

### Dull ar gyfer yr hir dymor

- Nawr yw'r amser i hwylio'r don – datblygu Brand Cymru
- Rhoi ffrydiau gwaith at ei gilydd
- Arwain y ffordd – fel yn achos codi tâl am fapiau plastig
- Awdurdodau Lleol yn dymuno cydlynu â gwirfoddolwyr
- Cerbydau posib:
- Facebook i dynnu sylw at y grŵp
- Safle Moroedd Gwyllt Cymru
- Tudalen Partneriaeth Moroedd Glân – ymarferoldeb cynnwys dyddiadur ar dudalen we y Bartneriaeth Moroedd Glân
- Defnydd ehangach o asesiadau effaith amgylcheddol – ar fentrau ar wahân i ddeddfwriaeth.

## **Atodiad 3 – Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweithdy Sail Dystiolaeth**



Writeup External  
WMAAG June 2018 C